Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 17.05.2021

## Cymru bellach yn Lefel Rhybudd 2

Heddiw, 17 Mai 2021, symudodd Cymru i Lefel Rhybudd 2.

Mae Cwestiynau Cyffredin Llywodraeth Cymru yn rhoi crynodeb defnyddiol o'r hyn sy'n cael ei ganiatáu ac nad yw'n cael ei ganiatáu o heddiw ymlaen, beth sy'n agored ac ar gau a rheolau ynghylch ble a sut y gall pobl gymysgu, gan gynnwys mewn lletygarwch a llety. Mae'r Cwestiynau Cyffredin ar gael yn:

https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-2-cwestiynau-cyffredin

Mae canllawiau manwl ar sut i gadw staff, cwsmeriaid a'r gymuned yn ddiogel ar gyfer amrywiaeth o sectorau ar gael yn:

https://llyw.cymru/busnesau-a-chyflogwyr-coronafeirws

## Cefnogaeth ariannol pellach i fusnesau

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd cymorth ariannol pellach ar gael i fusnesau sydd yn cael, neu'n parhau i gael, eu heffeithio gan gyfyngiadau tan ddiwedd Mehefin 2021.

Mae gwiriwr cymhwysedd wedi agor ar wefan Busnes Cymru heddiw, 17 Mai 2021. Bydd busnesau'n gallu cyflwyno ceisiadau erbyn diwedd y mis a byddant yn derbyn rhwng £2,500 a £25,000 gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau. Caiff y cyllid ei gyfrif yn seiliedig ar faint y busnes a'r math o gyfyngiadau sydd arno. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

[https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/cefnogaeth-bellach-i-fusnesau-cymru](https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/cefnogaeth-bellach-i-fusnesau-cymru)

## Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru – Cronfa i Weithwyr Llawrydd wedi agor

Gall gweithwyr llawrydd proffesiynol, sy'n gweithio yn y celfyddydau, diwydiannau creadigol, celfyddydau a threftadaeth, digwyddiadau neu ddiwylliant a threftadaeth sydd, ac a fydd, yn dal i gael eu effeithio gan y cyfyngiadau, wneud cais am gymorth pellach.

Mae y Gronfa wedi agor heddiw, 17 Mai 2021 a bydd yn cau am 5:00pm ar 1 Mehefin 2021. Bydd pob ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn taliad o £2,500. Cyn ymgeisio mae angen cwblhau y gwiriwr cymhwysedd ar wefan Busnes Cymru i weld a ydych chi'n debygol o fod yn gymwys i gael cymorth. Am fwy o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael ac i ymgeisio, ewch i:

[http://bit.ly/CronfaGweithwyrLlawryddMai2021](http://bit.ly/CronfaGweithwyrLlawryddMai2021)

## Gwobrau Busnesau Newydd Cymru 2021

Sefydlwyd Gwobrau Busnesau Newydd Cymru yn 2015 i gydnabod llwyddiannau unigolion sydd wedi cael syniad gwych, wedi gweld y cyfle a chymryd risgiau i lansio cynnyrch neu wasanaeth newydd. Am yr ail flwyddyn yn olynol, mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn noddi categori Gwobr Busnes Newydd Gogledd Cymru, ac mae M-SParc yn cefnogi y Gwobr Busnes Newydd Gwyrdd.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 31 Mai 2021. Gadewch i ni sicrhau cynrychiolaeth dda o Wynedd. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.walesstartupawards.com/awards/2021

## Rhwydweithio Rhithwir FSB Gogledd Cymru

Ymunwch â digwyddiad rhwydweithio rheolaidd FSB Gogledd Cymru i gwrdd â busnesau eraill o'r un anian, gwneud cysylltiadau newydd, meithrin rhai sy'n bodoli eisoes a chlywed am yr hyn y mae busnesau bach eraill yn ei wneud ar hyn o bryd.

- Dydd Gwener 21 Mai 2021, 12.00pm – 1.00pm
  Book here: https://bit.ly/3tCScGi

Am fwy o wybodaeth am holl ddigwyddiadau FSB, ewch i:

http://bit.ly/3r6ZEbn

Cyfrif Twitter FSB Cymru:

https://twitter.com/FSB_Wales

## Prosiect SELKIE – Cyfres 'Cwrdd â'r Arbenigwr' | Tendrau: GwerthwchiGymru 20 Mai 2021

Mae Prosiect Selkie yn trefnu cyfres o ddigwyddiadau sy'n canolbwyntio ar ddarparu cymorth busnes i gwmnïau sy'n awyddus i arallgyfeirio i'r sector ynni morol. Bydd y digwyddiad nesaf ar 20 Mai 2021 am 10:00am yn cynnwys GwerthwchiGymru. Wedi'i reoli gan Lywodraeth Cymru, mae gwefan GwerthwchiGymru.gov.cymru yn darparu amgylchedd diogel am ddim ar gyfer hysbysebu cyfleoedd contract a thendro. Eu nod yw helpu prynwyr y sector cyhoeddus i hysbysebu a rheoli cyfleoedd tendro a busnesau i hyrwyddo eu gwasanaethau a dod o hyd i gyfleoedd contract. Mae'r rhain yn cynnwys tendrau ar gyfer prosiectau Ynni Morol a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Bydd y digwyddiad 'Cwrdd â'r Arbenigwr' hwn yn helpu eich busnes i ddeall sut i wneud cais am dendrau yng Nghymru, sut i gofrestru a llywio'r wefan a chreu proffil ar gyfer eich busnes. I gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3eTgjMN

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch
busnes@gwynedd.llyw.cymru